Partneriaethau Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLSP)	Mae'r rhain yn bartneriaethau lleol (yn seiliedig ar ffiniau awdurdod unedol) sy'n flociau adeiladu'r CLS yng Nghymru. Erbyn Ebrill 2005, bydd pob Partneriaeth wedi cyhoeddi cynllun lleol ar gyfer datblygu gwasanaethau gwybodaeth a chynghori i fynd i'r afael ag anghenion a ddynodwyd yn lleol
Fforwm Cenedlaethol y CLS yng Nghymru	Mae hwn yn fforwm Cymru-gyfan a fynyichir gan sefydliadau gyda diddordeb yn natblygiad y CLS ond na all ymrwmo i ymwneud gyda 22 CLSP lleol (am resymau logistaidd, neu oherwydd bod eu cylch gorchwyl Cymru-gyfan yn golygu fod ymrwymiad o'r fath yn amhriodol). Y Fforwm Cenedlaethol yw'r bwrdd comisiynu ar gyfer Strategaeth Gwasanaethau Cyngori Cymru
Problem Gyfreithiol Gwybodaeth a Chyngor Cyfreithiol	Problem y medrir ei datrys o fewn fframwaith cyfreithiol Gwybodaeth a chyngor am yr hawliau ac oblygiadau cyfreithiol perthnasol i ddatrys problem gyfreithiol. Mae gwasanaethau gwybodaeth yn canolbwyntio ar roi'r wybodaeth i unigolion y maent ei hangen i fedru datrys y broblem drostynt eu hunain. Bydd gwasanaethau cyngori yn cynorthwyo'r unigolyn i ddeall y broblem sydd angen ei thrafod, cyflwyno opsiynau am i'w datrys, a gall olygu cymryd camau gweithredu ar ran yr unigolyn i ddatrys y broblem.

Gweledigaeth

Ein Gweledigaeth yw **Cymru lle mae pawb yn gwybod eu hawliau fel unigolyn ac yn medru eu gweithredu.**

Cenhadaeth

- Bydd y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru yn cyflenwi gwasanaethau gwybodaeth a chynghori cyfreithiol gyda Sicrwydd Ansawdd i bawb. Dodir pwyslais arbennig ar sicrhau y gall y bobl hynny gyda'r angen mwyaf am wasanaethau gwybodaeth a chynghori, a'r rhai a fyddai fel arall yn ei chael yn fwyaf anodd i gael mynediad i wasanaethau cefnogaeth, fanteisio o'r gwasanaethau a ddarperir.
- Bydd gwybodaeth a chynghori ar hawliau cyfreithiol a chyfrifoldebau yn galluogi person i fwyhau eu cyfle i gyfrannu at fywyd cymdeithasol ac economaidd Cymru.
- Caiff adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaeth eu cywain a'u dadansoddi er mwyn hysbysu a dylanwadu datblygiad a gweithrediad polisïau newydd, a newidiadau i bolisïau presennol. Bydd yr adborth hwn yn ganolog i gyflenwi gwasanaethau yn canolbwyntio ar y dinesydd.
- Bydd monitro, gwerthusiad ac adolygu yn cefnogi gwasanaethau gyda sicrwydd ansawdd, hygyrch a chyfeillgar i'r defnyddiwr.
- Caiff cynllunio gwasanaeth, cynnal a chadw gwasanaethau presennol a datblygu gwasanaethau newydd eu llywio gan anghenion defnyddwyr gwasanaeth, rhai heb fod yn ddefnyddwyr, a'u seilio ar ymchwil perthnasol.
- Bydd gwasanaethau yn hygyrch a chyfeillgar i'r defnyddwyr.

Gwerthoedd

Mynd i'r afael ag Anghyfartaledd - bydd gwasanaethau gwybodaeth a chynghori yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, beth bynnag eu hil, lliw, tarddiad cenedlaethol, iaith, crefydd, anabledd, oedran, rhyw, statws priodasol a thueddiad rhywiol

Cyfiawnder cymdeithasol – bydd gwasanaethau gwybodaeth a chynghori yn ymestyn allan i'r rhai anoddaf eu cyrraedd ac yn targedu'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf

Mynediad cyfartal i bawb - mae gan bawb hawl i wybodaeth a chynghori gyda sicrwydd ansawdd am eu hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol ar amser a lle, ac mewn ffurf sy'n addas ar gyfer eu hanghenion.

Sicrwydd Ansawdd – bydd gwasanaethau gwybodaeth a chynghori yn cyrraedd isafswm safonau a bydd archwiliad ac arolygiad annibynnol arnynt.

Dysgu Parhaol - bydd adborth gan ddefnyddwyr a rhai heb fod yn ddefnyddwyr, monitro, gwerthuso ac adolygu gweithgareddau yn sail i'r ffordd y caiff gwasanaethau gwybodaeth a chynghori eu cynllunio a'u cyflenwi.

Partneriaeth a chyfranogiad – caiff gwasanaethau gwybodaeth a chynghori eu cynllunio, eu datblygu a'u cydlynu drwy gyfranogiad defnyddwyr, rhai heb fod yn ddefnyddwyr, darparwyr a chyllidwyr

Hysbysu a dylanwadu - bydd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, rhai heb fod yn ddefnyddwyr a darparwyr yn hysbysu ac yn dylanwadu ar ddatblygiad a gweithrediad polisïau - yn y cyd-destun hwn, bydd polisïau'n cynnwys cynlluniau a all effeithio ar yr angen am wybodaeth a chynghori (e.e. newidiadau i reoliadau ar hawliau digartrefedd neu fudd-daliadau lles); a chynlluniau yn effeithio ar gyflenwi gwasanaethau gwybodaeth a chynghori (ee datblygu gwasanaethau ffôn neu seiliedig ar y rhyngwyd).

Pennod 1 : Y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol a Strategaeth Gwasanaethau Cynghori Cymru

Problemau Cyfreithiol yn Effeithio ar Bawb Ohonom

Nid dim ond i gyfreithwyr a'r llysoedd y mae problemau cyfreithiol yn berthnasol. Maent yn aml yn broblemau bob dydd sy'n ein hwynebu i gyd ar ryw amser neu'i gilydd - fel rhieni, fel siopwyr, fel cyflogedigion, fel tenantiaid, fel benthycwyr. "Heddiw, yn dilyn sefydlu amrediad helaeth o hawliau ac oblygiadau yn gysylltiedig â chefnogaeth plant, addysg, cyflogaeth, dyled, tai, iechyd a budd-daliadau lles dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf, mae'r problemau hyn yn cynnwys nifer fawr o faterion llesiant cymdeithasol sylfaenol".¹

Wrth gwrs, efallai na fydd bob amser angen dilyn y broses gyfreithiol fanwl neu yn wir gall fod nad yw hynny'n briodol wrth geisio datrys y problemau. Gall llwybrau eraill - megis gweithdrefnau cwynion ffurfiol neu negodi uniongyrchol - fod o leiaf mor effeithlon a bydd yn aml yn gyflymach ac yn rhatach. "Fodd bynnag, mae bodolaeth fframwaith diffiniol o gyfraith sifil perthnasol i lawer o broblemau bywyd cymdeithasol bod dydd a llesiant cymdeithasol, a'r posibiladau ar gyfer defnyddio gwasanaethau a phroses gyfreithiol i gyrraedd datrysiadau i broblemau o'r fath, yn golygu fod gan seilwaith cyfiawnder sifil heddiw rôl pwysig wrth wireddu cyfiawnder cymdeithasol".¹

Darpariaeth Gwasanaethau Gwybodaeth a Chynghori

Mae amrywiaeth eang o ddarparwyr gwasanaeth yng Nghymru² - yn seiliedig yn y sectorau statudol, preifat a dim-er-elw - ac yn amrywio o sefydliadau cymunedol bychan yn seiliedig ar wirfoddolwyr i bractisau cyfreithiol proffesiynol gyda throsiant o £1m a mwy y flwyddyn. Daw cyllid ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth a chynghori o ffynonellau yr un mor amrywiol - mae adrannau llywodraeth y DG a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig, Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol, cyrrff dosbarthu Loteri, cyrrff corfforaethol i gyd yn darparu cefnogaeth ariannol sylweddol i ddarparwyr gwasanaeth. Yn hanesyddol, fodd bynnag, ychydig o ymgais a wnaed i gydlynu un ai gyflwyniad y gwasanaeth neu'r cyllid i'w gefnogi. Fel canlyniad, datblygodd gwasanaethau mewn ffordd ddarniog, gyda dyblygu anochel ar wasanaethau mewn rhai ardaloedd, a diffyg llwyr o ddarpariaeth mewn eraill. Ar yr un pryd, nid oedd fawr neu ddim gwybodaeth ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau gwybodaeth a chynghori ac eraill ar ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd, a'r dulliau a ddefnyddid ar gyfer monitro a chynnal ansawdd.

Cysyniad Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Roedd cysyniad y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn rhan allweddol o Ddeddf Mynediad i Gyfiawnder 1999. Mae'n 'rhith sefydliad', yn tynnu ynghyd ddarparwyr gwasanaethau gwybodaeth a chynghori cyfreithiol, a chyllidwyr y gwasanaethau hynny. Nod allweddol y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yw sicrhau bod gan bawb sy'n cael problem gyfreithiol fynediad i wasanaethau gwybodaeth a chynghori a fydd yn eu galluogi i ddatrys y broblem honno yn foddhaol. Nod Ansawdd y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yw brand stryd fawr y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol ac mae'n rhoi lefel o sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth a chyllidwyr yr aseswyd y darparwyd gwybodaeth a chynghori yn annibynnol yn erbyn safon ansawdd a osodwyd yn genedlaethol.

¹ Pleasence et al; *Causes of Action : Civil Law and Social Justice*; TSO, Llundain 2004; t.1

² Medrir cael manylion darparwyr cyngor cyfreithiol o wefan Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn www.clsdirect.org.uk neu drwy ffonio 0845 345 4 345.

Gwybodaeth Cyngor a Chyfiawnder Cymdeithasol – y dystiolaeth ymchwil

Tra bod y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol ar gael i bawb mewn cymdeithas, mae tystiolaeth gynyddol i gefnogi'r farn y gall diffyg mynediad i wasanaethau gwybodaeth a chynghori cyfreithiol dibynadwy fod yn ffactor sy'n cyfrannu at greu a chynnal allgauedd cymdeithasol, a bod mynediad gwael i gyngor wedi golygu i lawer o bobl ddioddef oherwydd iddynt fethu gweithredu eu hawliau cyfreithiol yn effeithlon neu na wyddent am eu hawliau a'u cyfrifoldebau yn y lle cyntaf.³ Aeth sylwebwyr eraill ymhellach drwy awgrymu fod ymrymuso unigolion fel canlyniad i wybodaeth a chynghori priodol yn eu galluogi i sicrhau'r buddion a gwasanaethau y mae ganddynt yn hawl iddynt effaith ategol yn nhermau datblygu cymunedol, gan ddweud fod adfocatiaeth a chynghori cyfreithiol i'r tlawd ac allgaedig yn beiriant effeithlon o gynhwysiant cymdeithasol ac ymladd tlodi drwy sicrhau ac ehangu hawliau i fuddion a gwasanaethau hollbwysig, a rhoi llais i gwynion ac ymrymuso pobl a chymunedau.⁴

Mae *Causes of Action : Civil Law and Social Justice* yn rhoi canfyddiadau'r astudiaeth fanylaf a gynhaliwyd erioed ar broblemau cyfraith sifil. Mae'n dynodi'r mathau o broblemau a gaiff pobl, eu hymateb i'r problemau hynny (yn cynnwys y rhesymau pam na weithredir yng nghyswllt bron un ym mhob pump o'r problemau a ddynodwyd) a nodweddion neilltuol pobl sy'n cael problemau. Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai'r rhai a adroddodd salwch hir-sefydlog neu anabledd, rhieni unigol, y rhai'n byw yn y sector tai rhent ac mewn tai dwysedd uchel, y rhai a oedd yn ddi-waith neu ar incwm isel iawn, a rhai rhwng 25 a 44 oedd fwyaf tebygol o adrodd problemau. Ymhellach, er bod ymatebwyr o bob maes o fywyd yn adrodd problemau, mae'n glir fod grwpiau a 'allgaewyd yn gymdeithasol' yn arbennig o agored i brofi problemau cyfreithiol.⁵ Roedd pobl o grwpiau a 'allgaewyd yn gymdeithasol' hefyd yn fwy tebygol o ddioddef problemau lluosog.

Y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru

Mae llawer o'r gwaith yn gysylltiedig â datblygu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru ers ei lansio ym mis Ebrill 2000 wedi bod â ffocws lleol - un ai wrth sefydlu partneriaethau lleol o ddarparwyr a chyllidwyr gwasanaeth, neu wrth ddatblygu darparwyr gwasanaeth i'w galluogi i gyflawni'r safon Nod Ansawdd. Fel canlyniad dim ond gwaith cyfyngedig a aeth i ddatblygu cynlluniau ar lefel Cymru-gyfan a gyfrannodd at gyflawni nodau ac amcanion cynhwysfawr y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

Y strategaeth hon, a ddatblygwyd gan Fforwm Cenedlaethol Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Cymru, yw'r cam cyntaf ar hyd y ffordd i unioni'r cydbwysedd hwnnw. Fe'i hysbysir gan adborth gan bobl a fu â rhan wrth lunio'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn eu hardaloedd, a chafodd ei ddrafftio gan Grŵp Tasg yn cynnwys cynrychiolwyr darparwyr gwasanaeth, cyllidwyr a gwneuthurwyr polisi ar lefel Cymru-gyfan.

Mae'r Strategaeth yn nodi canlyniadau dymunol, cynlluniau gweithredu, dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer mesur perfformiad, a threfniadau ar gyfer monitro ac adolygu yng nghyswllt darpariaeth gwasanaethau gwybodaeth a chynghori,

³ Adran yr Arglwydd Ganghellor a Ffederasiwn Canolfannau Cyfraith; *Legal and Advice Services: A pathway out of social exclusion*; Adran yr Arglwydd Ganghellor, 2001; t.11.

⁴ Stein J.; *The future of social justice in Britain : A new mission for the Community Legal Service*; Ysgol Economeg Llundain, 2001; t.48

⁵ Pleasance et al; *Causes of Action: Civil Law and Social Justice*; TSO, Llundain 2004; t.45


ymwybyddiaeth gyhoeddus, partneriaethau lleol a chyllid. Cydnabyddir fod cyfyngiadau ar gyllid, a bod pwyslais cynyddol ar arloesedd er mwyn ateb anghenion gwasanaethau gwybodaeth a chyngor cyfreithiol.

Bydd Fforwm Cenedlaethol Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Cymru yn dal i fod yn berchen y Strategaeth ac yn ei monitro, ac mae'n debygol y bydd angen ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd fel y daw gwybodaeth newydd i'r law ac fel y gweithredir ac yr adolygir y camau gweithredu a nodir yn y penodau unigol.

Mae aelodau'r Fforwm Cenedlaethol yn cynnwys:

Age Concern Cymru
Anabledd Cymru
ASBAH yng Nghymru
Barclays Community Affairs
Canllaw Online
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol GIG
Canolfan Cydweithredol Cymru Cyf
Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
Comisiwn Cyfle Cyfartal
Comisiwn Hawliau Anabledd
Cyfryngu Cymru
Cyngor Ar Bopeth Cymru
Cyngor Defnyddwyr Cymru
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
ELWa
Ffederasiwn Canolfannau Cyfraith
Gwasanaeth Cyngori Mewnffudo
Fforwm Cyllidwyr Cymru
Gwasanaeth Pensiwn
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Gwasanaeth Prawf Dyfed/Powys
Halifax CCC
LACORS
MEWN Cymru
Mynediad Ieuenctid
Shelter Cymru
SNAP Cymru
Stonewall Cymru
Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo

Perthynas CLS



Pennod 2 : Y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol a'r Cyd-Destun Polisi ehangach yng Nghymru

Y Fframwaith Statudol a'r Stori Hyd Yma

Mae Deddf Mynediad i Gyfiawnder 1999 yn dod i dyletswydd statudol ar y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i ddatblygu a chynnal y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, ac i weithio mewn partneriaeth gyda chyllidwyr a darparwyr gwasanaethau gwybodaeth a chynghori i weithredu'r ddyletswydd honno. Cafodd y goblygiad yn y ddeddfwriaeth mai dynesiad partneriaeth at ddatblygu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol - yn seiliedig ar gydweithio a chydweithredu - oedd fwyaf tebygol o arwain at gyflwyno'r buddion a ragwelwyd, ei gyfnerthu ymhellach drwy brofiad ymarferol yn y pum mlynedd ers ei lansio yn Ebrill 2000. Nid yw gweithio mewn partneriaeth yn opsiwn rhwydd, ac mae'n neilltuol o broblemus lle gall y partneriaid hefyd fod mewn perthynas rhoddwr/derbynnydd, neu lle gallant fod yn cystadlu am gyllid cyfyngedig i gyflenwi gwasanaethau tebyg.

Partneriaethau a Gwasanaeth Polisi Cyhoeddus yng Nghymru

Mae'n ddi-os y bu nifer o achosion o gamgychwyn wrth i'r Partneriaethau Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Lleol ymsefydlu, ac mae'n dal yn gynnar iawn yn nhermau datblygiad partneriaethau mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae'r dynesiad partneriaeth yn cyd-fynd â'r dynesiad cyffredinol at gyflenwi gwasanaeth cyhoeddus a ffafir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a gadarnhawyd yn fwyaf diweddar yn *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru*.⁶ Mae Pennod 5 y Strategaeth hon yn nodi nifer o gynigion a gynlluniwyd i gynyddu effeithlonrwydd partneriaethau lleol wrth helpu i gyflenwi'r Strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru. Yn neilltuol, adnewyddwyd y ffocws ar gysylltu cynllunio, cyllido a chyflenwi gwasanaethau gwybodaeth a chynghori i'r fframwaith Cynllunio Cymunedol ehangach; ac ar sicrhau y meddir clywed barn defnyddwyr gwasanaeth yn y broses cynllunio gwasanaeth. Rhoddir ystyriaeth i ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu a gweithredu Cynllun Gofodol integredig i Gymru, sy'n adlewyrchu'r dymuniad am ddyfodol yn seiliedig ar egwyddorion allweddol cyfiawnder, cydraddoldeb a chynaliadwyedd cymdeithasol.

Trosolwg Strategol

Amlinellodd Pennod 1 y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg i gefnogi'r farn fod gan wasanaethau gwybodaeth a chynghori hygyrch a gyda sicrwydd ansawdd rôl i'w chwarae wrth gyflenwi cyfiawnder cymdeithasol a chyfrannu at ddatblygiad cymunedol. Mae hyn yn taro tant cryf gyda gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad am Gymru lle sy'n "cymryd camau ym maes cyfiawnder cymdeithasol i fynd i'r afael â thlodi ac afiechyd a chynnig ffordd i bobl helpu eu hunain a'u cymunedau a dianc o fagl tlodi"⁷. Mae ymwybyddiaeth o hawliau cyfreithiol, a sut i'w gweithredu, yn gam cyntaf hanfodol os yw pobl i fanteisio'n llawn ar y buddion a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt ac a gynlluniwyd i'w helpu i gyflawni eu potensial fel dinasyddion gweithgar yn eu cymunedau lleol. Mae Pennod 4 y Strategaeth hon yn nodi cynigion ar gyfer cynyddu'r ymwybyddiaeth hwnnw a gostwng nifer y bobl nad ydynt yn cymryd unrhyw gamau i fynd i'r afael â phroblemau gan gredu na feddir gwneud dim.

Mae cyllid ar gyfer cyflenwi gwasanaethau gwybodaeth a chynghori yn tueddu i ddenu beirniadaeth gan ddarparwyr gwasanaeth oherwydd ei natur tymor byr a ffocws prosiect-

⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru*; Hydref 2004

⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru; *Cymru: Gwlad Well*; Medi 2003

penodol. Er bod hyn yn broblem neilltuol o berthnasol i ddarparwyr yn y sector di-elw, mae'n weithredol i raddau i ddarparwyr yn y sectorau preifat a statudol hefyd. Mae Pennod 6 y Strategaeth yn cynnwys cynigion ar gyfer gwella cydlynu cyllid ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth a chynghori, gostwng y baich biwrocraidd ar ddarparwyr gwasanaeth fel canlyniad i lu o drefniadau adrodd gwahanol gyllidwyr, a datblygu canllawiau ar arfer cyllido da yn seiliedig ar Godau Ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ac adroddiad Comisiwn Ymchwiliad *Surer Funding* ACEVO (Cymdeithas Prif Gweithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol) a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Cwestiynau Ymgynghori

1. A oes unrhyw faterion eraill y credwch iddynt gael eu gadael allan?
2. A gytunwch i ni grynhoi'r sefyllfa fel y deallwch chi hi?

Pennod 3 : Darpariaeth Gwasanaethau Gwybodaeth a Chyngori

Canlyniadau Dymunol

- Mae gwasanaethau gwybodaeth a chyngor cyfreithiol gyda Nod Ansawdd ar gael i bawb yng Nghymru
- Caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u cyflenwi mewn ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaeth a darpar ddefnyddwyr yn seiliedig ar wybodaeth
- Caiff gwasanaethau eu cyflenwi mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gydbwysu anghenion neilltuol defnyddwyr gwasanaeth a'r angen i gynnal safonau ansawdd a gytunwyd
- Caiff defnyddwyr eu cyfeirio'n effeithlon ac yn effeithiol at y ffynhonnell fwyaf priodol o wybodaeth a chyngor gyda sicrwydd ansawdd i fynd i'r afael â'u problem gyfreithiol neilltuol
- Gall darparwyr gwybodaeth a chyngor cyfreithiol sy'n dymuno cael Nod Ansawdd ar y lefel perthnasol gyrchu help a chefnogaeth i gyrraedd y safon ofynnol
- Mae parhad a datblygiad darpariaeth gwasanaeth yn ystod oes y strategaeth

Cynllun Gweithredu

Ffocws cleient

- Adolygu a chomisiynu ymchwil marchnad i sefydlu gofynion defnyddwyr a rhai nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau gwybodaeth a chyngor cyfreithiol yn nhermau dulliau cyflwyno gwasanaeth, oriau agor, lleoliad gwasanaeth ac ati - ymchwil penodol i fod â ffocws ar y rhai yn byw mewn ardaloedd daearyddol difreintiedig a defnyddwyr sydd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i brofi problemau cyfreithiol (yn seiliedig ar ymchwil *Causes of Action*)
- Sefydlu grŵp tasg i ddatblygu cynigion ar gyfer casglu a dadansoddi defnyddwyr gwasanaeth, rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr a darparwyr y meddir eu defnyddio i hysbysu datblygiad polisi'r dyfodol gyda'r nod o ostwng nifer problemau cyfreithiol ar gyfer unigolion yn y dyfodol.

Darpariaeth gwasanaeth

- Sefydlu grŵp tasg i;
 - adolygu, dynodi a dysgu o arfer gorau mewn gweithdrefnau arwyddbostio ac atgyfeirio, a sefydlu canllawiau ymarfer ar gyfer darparwyr yng Nghymru
 - adolygu a dynodi anghenion cefnogaeth sefydliadau sy'n dymuno cael Nod Ansawdd, a gwneud argymhellion ar y ffordd orau o gyflawni'r anghenion cefnogaeth hynny
- Adolygu gwerthusiadau a gwblhawyd o ddulliau cyflenwi gwasanaeth er mwyn asesu i ba raddau y maent yn effeithlon wrth fynd i'r afael ag anghenion defnyddwyr ac eraill, ac i ba raddau y maent yn cynnig gwasanaethau effeithlon ac effeithlon i gyllidwyr gwasanaeth
- Mynediad i wasanaethau ar gyfer y cleient i barhau a datblygu yn ystod y cyfnod ymchwil

Targedau

- Sefydlu adolygiad o'r gwerthusiadau o ddulliau cyflenwi gwasanaeth erbyn mis Rhagfyr 2005
- Sefydlu grŵp/grwpiau tasg i:
 - datblygu canllawiau ymarfer ar gyfer arwyddbostio ac atgyfeirio yn y CLS yng Nghymru - canllawiau i gael eu cyhoeddi erbyn Ebrill 2006

- argymell y ffordd orau i ateb anghenion cefnogaeth sefydliadau sy'n dymuno cael Nod Ansawdd – cyhoeddi argymhellion erbyn mis Ebrill 2006
- datblygu cynigion ar gyfer gwaith polisi Cymru-gyfan – cyhoeddi cynigion erbyn mis Ebrill 2006
- Cyhoeddi dadansoddiad ymchwil marchnad o ofynion defnyddwyr erbyn Medi 2006
- Cynyddu hygyrchedd gwasanaeth sicrwydd ansawdd bob blwyddyn. Cynyddu'r nifer o wasanaethau gyda Nod Ansawdd.

Monitro ac Adolygu

Rhoddir adroddiad chwarterol ar gynnydd ar y targedau i Fforwm Cenedlaethol Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Cymru

Cwestiynau Ymgynghori

3. A ydych yn cytuno gyda'r cynigion a wnaed?
4. Pa rai o'r partneriaid fydddech chi'n eu gweld yn bennaf gyfrifol am y camau gweithredu unigol yn y bennod hon?
5. Sut all partneriaid gyfathrebu gyda rhai nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth?
6. A yw'r amserlenni yn realistig?
7. A gynhwyswyd pob agwedd? Os na, beth fydddech chi'n hoffi ei gynnwys?

Pennod 4 : Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

Canlyniadau Dymunol

- Ymwybyddiaeth cynyddol fod gan bobl hawliau cyfreithiol ac oblygiadau gorfodadwy yn eu bywydau beunyddiol
- Cydnabyddiaeth fod gwybodaeth a/neu gyngor ar gael i'w cynorthwyo a'u cefnogi wrth ddatrys yr amrediad llawn o broblemau cyfreithiol
- Cydnabod Nod Ansawdd y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) gan bawb fel safon sicrwydd ansawdd a ddilyswyd yn annibynnol ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth a chynghori. Mae pobl yn ceisio gwybodaeth a/neu gyngor yn cydnabod mai'r gwasanaethau hyn yw'r 'porth' i'r CLS ac yn troi at y darparwyr hyn yn y lle cyntaf.

Cynllun Gweithredu

- Comisiynu ymchwil marchnad i sefydlu meincnodau yn nhermau:
 - ymwybyddiaeth gyhoeddus o'u hawliau ac oblygiadau cyfreithiol gorfodadwy
 - cydnabyddiaeth gyhoeddus i Nod Ansawdd y CLS a'r hyn y mae'n ei gynrychioli
 - cydnabyddiaeth gyhoeddus fod gwybodaeth a/neu gyngor ar gael i'w cynorthwyo a'u cefnogi wrth ddatrys yr amrediad llawn o broblemau cyfreithiol
- Datblygu, ymgynghori ar, gweithredu ac adolygu ymgyrch hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o:
 - hawliau ac oblygiadau cyfreithiol gorfodadwy
 - Nod Ansawdd y CLS
 - argaeledd gwasanaethau gwybodaeth a chynghori cyfreithiol i gynorthwyo a chefnogi pobl wrth ddatrys problemau cyfreithiol
- Cywain gwybodaeth ar ddynesiadau presennol at farchnata a hyrwyddo gwasanaethau gwybodaeth a chynghori cyfreithiol yn Lloegr yng Nghymru i hysbysu canllawiau arfer da i ddarparwyr unigol a phartneriaethau lleol a'u hyrwyddo'n genedlaethol
- Sefydlu'r Fforwm Cenedlaethol fel y corff cydlynu ar gyfer ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth yng Nghymru

Targedau

- Ymgyrch hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o:
 - hawliau ac oblygiadau cyfreithiol gorfodadwy
 - Nod Ansawdd y CLS
 - argaeledd gwasanaethau gwybodaeth/cynghori
- Yn barod i'w gweithredu erbyn Ebrill 2006
- Cyhoeddi canllaw arfer da ar farchnata a hyrwyddo gwasanaethau gwybodaeth a chynghori erbyn Medi 2006
 - Sefydlu meincnodau ymwybyddiaeth erbyn Medi 2006

Monitro ac Adolygu

Rhoddir adroddiad chwarterol ar y cynnydd ar y targedau i Fforwm Cenedlaethol Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Cymru.

Bydd trefniadau monitro ac adolygu yn rhan o'r cynlluniau ymgyrch hyrwyddo unigol

Cwestiynau Ymgynghori

8. A ydych yn fodlon mai Nod Ansawdd y CLS yw brand y Strategaeth?
9. A gredwch fod dryswch am yr amrywiaeth o ddarparwyr sydd ar gael?
10. A wyddoch am unrhyw gynigion cyfredol i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau presennol?
11. Pwy fydddech chi'n ystyried fyddai â'r cyfrifoldeb arweiniol am y camau gweithredu unigol yn y bennod hon?

Pennod 5 : Partneriaethau/Strategaethau Lleol

Canlyniadau Dymunol

- Mae gwasanaethau gwybodaeth a chyngor cyfreithiol yn rhan gyfannol o Strategaethau Cymunedol a/neu Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant ac mae Partneriaethau Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn gyfrannydd gweithgar at gynlluniau partneriaeth strategol lleol perthnasol
- Mae Cynllun Gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth a chynghori ar gyfer pob awdurdod unedol, a adolygir o leiaf unwaith y flwyddyn, yn gysylltiedig â Strategaeth Gwasanaethau Cynghori Cymru, ac yn sail i benderfyniadau lleol ar ddatblygiad gwasanaeth a chyllid
- Caiff y Partneriaethau Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol, fel model, eu cefnogi gan fwyafrif y sefydliadau Nod Ansawdd yn ardal yr awdurdod unedol - mae aelodau'r Partneriaethau yn cymryd rhan weithgar yn y partneriaethau fel ffynhonnell gwerth ychwanegol i'w sefydliadau
- Mae'r Partneriaethau Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn arwain wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth a chyngor cyfreithiol ar lefel awdurdod unedol

Cynllun Gweithredu

- Adolygu ymarfer a phrofiad Partneriaethau lleol yn Lloegr a Chymru i sefydlu meincnodau ar gyfer yr hyn sy'n cyfrannu at bartneriaeth effeithlon, a chyhoeddi canlyniadau
- Gweithio gydag aelodau Partneriaethau lleol i ddatblygu isafswm gofynion a chanllawiau arfer da ar gyfer cynhyrchu Cynlluniau Gwasanaethau lleol sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth hon a hefyd â strategaethau lleol perthnasol eraill
- Adolygu adroddiadau presennol a chynnal ymchwil ymysg sefydliadau gyda Nod Ansawdd i ddeall yn well lefel ymgyfraniad mewn Partneriaethau lleol ac i fwyhau ymgyfraniad cyson ar draws amrediad o sefydliadau
- Ymrwymo gyda phartneriaid allweddol ar lefel leol, Cymru ac unrhyw isranbarthau sy'n datblygu a benderfynir o fewn Cynllun Gofodol Cymru, i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol a rôl bosibl Partneriaethau lleol wrth gyflwyno targedau cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio cymunedol
- Egluro'r isafswm gwybodaeth a chefnogaeth y bydd angen ei darparu i Bartneriaethau lleol

Targedau

- Cyhoeddi canlyniadau adolygiad o ymarfer a phrofiad am yr hyn sy'n cyfrannu at bartneriaeth effeithlon erbyn Ebrill 2006
- Cyhoeddi isafswm gofynion a chanllawiau arfer da ar gynllunio gwasanaeth erbyn Ebrill 2006
- Cwblhau ymchwil i'r ffactorau fyddai'n annog mwy o sefydliadau i gymryd rhan mewn Partneriaethau erbyn Gorffennaf 2006
- Cynyddu ymrwymiad gyda phartneriaid allweddol yn cymryd rhan mewn agendâu cyfiawnder cymdeithasol/adfywio cymunedol i gynnwys Cynllunwyr Cymunedol a Byrddau Iechyd Lleol fel isafswm

Monitro ac Adolygu

Rhoddir adroddiad chwarterol ar y cynnydd ar y Targedau i Fforwm Cenedlaethol Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Cymru.

Bydd y cynlluniau gweithredu unigol yn cynnwys trefniadau monitro ac adolygu penodol.

Cwestiynau Ymgynghori

13. Pa agwedd penodol o'r agendâu Adfywio Cymdeithasol y medrir eu cysylltu i'r Strategaeth?
14. A oes strwythurau neu fodelau, heblaw Partneriaethau Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, sydd angen eu cynnwys yn yr opsiynau? Os felly, beth ydynt?

Pennod 6 : Cyllid

Canlyniadau Dymunol

- Dynesiad mwy cydlynol at gyllid gwasanaethau gwybodaeth a chynghor cyfreithiol er mwyn cyflenwi mynediad cynyddol a chyfartal a chynnig gwasanaethau effeithlon ac effeithlon i ddarparwyr gwasanaeth
- Trefniadau adrodd symlach a chyson ar gyfer darparwyr gwasanaeth, beth bynnag yw ffynhonnell y cyllid, wedi'i beilotio drwy fframwaith rheolaeth perfformiad unedig
- Penderfyniadau ar gyllid wedi eu seilio ar dystiolaeth briodol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau datblygu gwasanaeth lleol a/neu genedlaethol
- Dulliau cyllid sy'n cyd-fynd â Chod Ymarfer Cyllido Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cynllun Gweithredu

- Sefydlu Grŵp Tasg yn adrodd i'r Fforwm Cenedlaethol:
 - datblygu cynigion manwl ar gyfer datblygu dynesiad cydlynol at gyllido gwasanaethau gwybodaeth a chynghor cyfreithiol yng Nghymru; a
 - datblygu canllawiau ar ddulliau cyllido i'w mabwysiadu gan gyllidwyr, sy'n cyd-fynd â Chod Ymarfer Cyllido Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Sefydlu Grŵp Tasg yn adrodd i'r Fforwm Cenedlaethol i ddatblygu a pheilotio fframwaith rheolaeth perfformiad unedig ar gyfer darparwyr gwasanaethau gwybodaeth a chynghori, yn cynnwys datblygu mesurau cyllid ymhellach a chysylltu gyda gwaith tebyg i'r hyn a wneir yn Lloegr
- Datblygu ymhellach y Grŵp Diddordeb Arbennig ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth a Chynghori (cynllun ar y cyd gan Gomisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Fforwm Cyllidwyr Cymru) i sicrhau fod gan gyllidwyr fynediad i ymchwil a strategaethau/cynllunio lleol perthnasol wrth wneud penderfyniadau cyllido

Targedau

- Grŵp Diddordeb Arbennig ar gyfer Cyllidwyr Gwasanaethau Gwybodaeth a Chynghori wedi ei sefydlu'n ffurfiol erbyn 30 Medi 2005
- Sefydlu Grŵp Tasg Cyllid erbyn Rhagfyr 2005
- Cyhoeddi argymhellion y Grŵp Tasg Cyllid erbyn Ebrill 2006
- Cynllun gweithredu i weithredu'r argymhellion a gytunwyd gan y Grŵp Tasg Cyllid erbyn Medi 2006
- Cynnal cynllun peilot o'r Fframwaith Rheolaeth Perfformiad yn ardaloedd o leiaf ddau awdurdod unedol erbyn Medi 2006
- Gwerthuso'r cynllun peilot a chyhoeddi argymhellion erbyn Mawrth 2007

Monitro ac Adolygu

Rhoddir adroddiad chwarterol ar y cynnydd ar y targedau i Fforwm Cenedlaethol Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Cymru.

Caiff manylion y penderfyniadau cyllid gwirioneddol yn gysylltiedig â gwasanaethau gwybodaeth a chynghori eu cywain gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'u hadrodd i'r Fforwm Cenedlaethol ar sail chwarterol.

Cwestiynau Ymgynghori

15. Pam y credwch ein bod angen dynesiad cydlynol at gyllido?
16. Pwy ddylai fod yn rhan o'r Grŵp Tasg Cyllido?
17. A gynhwyswyd yr holl faterion?

Amserlen

Targedau	Dyddiad cwblhau
Darparu Gwasanaeth Gwybodaeth a Chynghori	
Cyhoeddi adolygiad o'r gwasanaeth o ddulliau cyflwyno gwasanaeth	Rhagfyr 05
Sefydlu Grŵp Tasg i ddatblygu canllawiau ymarfer ar gyfer arwyddbostio ac atgyfeirio yn y CLS yng Nghymru – canllawiau i gael eu cyhoeddi	Ebrill 06
Sefydlu Grŵp Tasg i argymhell y ffordd orau i ateb anghenion cefnogaeth sefydliadau sy'n dymuno cael Nod Ansawdd - argymhellion i gael eu cyhoeddi	Ebrill 06
Sefydlu Grŵp Tasg i ddatblygu cynigion ar gyfer gwaith polisi Cymru-gyfan – cynigion i gael eu cyhoeddi	Ebrill 06
Cyhoeddi dadansoddiad ymchwil marchnad o ofynion defnyddwyr	Medi 06
Ymwybyddiaeth Gyhoeddus	
Ymgrych hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o hawliau ac oblygiadau cyfreithiol gorfodadwy, o Nod Ansawdd y CLS, o argaeledd gwasanaethau gwybodaeth/cyngor	Parod i'w gweithredu Ebrill 06
Canllawiau ymarfer da ar farchnata a hyrwyddo gwasanaethau gwybodaeth a chyngor	Medi 06
Sefydlu meincnodau ymwybyddiaeth	Medi 06
Partneriaethau/Strategaethau Lleol	
Cyhoeddi canlyniadau adolygiad o ymarfer a phrofiad am yr hyn sy'n cyfrannu at bartneriaeth effeithlon	Ebrill 06
Cyhoeddi isafswm gofynion a chanllawiau arfer da ar gynllunio gwasanaeth	Ebrill 06
Cwblhau ymchwil i'r ffactorau a fyddai'n annog mwy o sefydliadau i gymryd rhan mewn Partneriaethau	Gorffennaf 06
Cynyddu ymrwymadau gyda phartneriaid allweddol yn cymryd rhan mewn agendâu cyfiawnder cymdeithasol/adfywio cymdeithasol i gynnwys cynllunwyr cymunedol a Byrddau Iechyd Lleol fel isafswm	Parhaol
Cyllid	
Sefydlu Grŵp Diddordeb Arbennig ar gyfer Cyllidwyr Gwasanaethau Gwybodaeth a Chyngor yn ffurfiol	Medi 05
Sefydlu Grŵp Tasg Fframwaith Rheolaeth Perfformiad	Medi 05
Sefydlu Grŵp Tasg Cyllid	Rhagfyr 05
Cyhoeddi argymhellion y Grŵp Tasg Cyllid	Ebrill 06
Cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu i weithredu'r argymhellion a gytunwyd gan y Grŵp Tasg Cyllid	Medi 06
Cynnal cynllun peilot ar Fframwaith Rheolaeth Perfformiad yn ardaloedd o leiaf ddau awdurdod unedol	Medi 06
Gwerthuso cynllun peilot a chyhoeddi argymhellion	Mawrth 07